# Y PWYLLGOR ADDYSG A DYSGU GYDOL OES

## YSTYRIED CYLLIDEB DDRAFFT 2002/2005

### Pwrpas

1. Clywed safbwyntiau'r Pwyllgor ynghylch y gyllideb ddrafft (atodiad 1) ar gyfer y 3 blynedd 2002/2005, fel ag a gyflwynwyd gan y Gweinidog dros Gyllid a Chymunedau ac a drafodwyd yn y Cyfarfod Llawn ar 18 Hydref.

### Argymhelliad

2. Bod y Pwyllgor yn rhoi sylwadau ar y gyllideb ddrafft yn Atodiad 1.

### Amseru

3. I'w drafod ar 31 Hydref; byddai o gymorth pe câi unrhyw ymateb ffurfiol ei wneud erbyn 7 Tachwedd. Mae disgwyl i'r Gweinidog Cyllid gynnig y gyllideb derfynol ar 22 Tachwedd, wedi iddi ystyried sylwadau'r pwyllgorau pwnc.

### Cefndir

4. Nid yw eleni'n flwyddyn adolygu gwariant. Bu'r Pwyllgor wrthi'n ystyried y papur materion ac yn rhoi ei sylwadau ar y blaenoriaethau ar gyfer unrhyw adnoddau ychwanegol a allai gael eu neilltuo (mae llythyr Cadeirydd y Pwyllgor yn Atodiad 2). Y blaenoriaethau hynny oedd sail y trafodaethau â'r Gweinidog Cyllid a'r dyraniadau arfaethedig. Yn Atodiad 3, amlinellir hynt a chyllid ymrwymiadau'r cytundeb partneriaeth. Mae'r sylwadau isod yn canolbwyntio ar brif eitemau'r gyllideb.

### Goblygiadau Ariannol

5. Yn unol â'r hyn a amlinellir ym mhapurau'r gyllideb a'r hyn a geir isod.

### Sylwadau

### Cyffredinol

6. Mae’r gyllideb ddrafft yn golygu cynnydd o dros £19m yn yr adnoddau sydd ar gael ym Mhrif Grwp Gwariant addysg a hyfforddiant yn 2002-2003 a chynnydd o bron i £28m yn 2003-2004. Flwyddyn ar ôl blwyddyn, mae hwn yn gynnydd gwirioneddol o 4.2% yn 2002-2003 a 4% yn 2003-2004. Mae cyfanswm y cynnydd mewn adnoddau, o ystyried y caiff hyblygrwydd diwedd blwyddyn a’r Gronfa eu defnyddio, yn £60.049 yn 2002-2003 a £54.043m yn 2003-2004.
7. Y tu allan i’r Prif Grwp Gwariant, ariannir y prif faes gwariant o ran y portffolio hwn trwy’r setliad refeniw llywodraeth leol, er mwyn darparu ysgolion a gwasanaethau addysg awdurdodau lleol. Mae’r Setliad Refeniw Llywodraeth Leol yn cynyddu £171m. Mae’r cynigion yn golygu cynnydd gwirioneddol sylweddol gwerth 3.4% y flwyddyn nesaf a 3.1% y flwyddyn ganlynol yng nghyllideb Llywodraeth Leol. Nid yw cyllid llywodraeth leol wedi’i bridiannu, ond mae’r setliad hwn yn rhoi digon o sgôp i’r awdurdodau er mwyn iddynt allu cynnal a datblygu gwasanaethau tra’n sicrhau bod y cynnydd yn nhreth y cyngor yn aros ar lefel resymol.
8. Ymhlith y meysydd eraill sy’n berthnasol i’r Pwyllgor y mae’r adnoddau ar gyfer menter Llwybrau Diogel i’r Ysgol lle bydd y cyllid presennol o £2.7m y flwyddyn yn parhau, a’r adnoddau ar gyfer gofal plant lle bydd cynnydd o £0.5m o 2002-2003 ymlaen. Golyga hyn, ynghyd â’r £0.5m a fydd ar gael yn sgil hyblygrwydd diwedd blwyddyn a’r cynnydd o £1m yn y llinell waelod, y bydd £2 filiwn yn ychwanegol i’r hyn a ddarparwyd eleni ar gael ar gyfer y Strategaeth Gofal Plant. Bydd hyn yn hwb i ymateb integredig y Cynulliad i waith Panel y Blynyddoedd Cynnar a Thasglu’r Strategaeth Gofal Plant.
9. Yn ogystal â’r canlyniadau a’r cynhyrchion a gefnogir gan setliad y gyllideb tair blynedd a gyhoeddwyd yn y flwyddyn 2000, mae’r gyllideb ddrafft yn darparu:

- cymorth un-tro ar gyfer costau ailstrwythuro’r Cyngor Cenedlaethol – ELWa i alluogi’r Cyngor i sicrhau bod ei staff a’i adeiladau yn gweddu i’w anghenion gweithredol; bydd y cynnydd yn y ddarpariaeth i’r Cyngor Cenedlaethol yn caniatáu iddo ddal ati i gefnogi’r holl grwpiau dysgu, tra’i fod yn dechrau ar y gwaith o feithrin mentrau newydd a fydd yn annog mwy o bobl i gymryd rhan, yn hybu sgiliau hanfodol, yn datblygu dysgu yn y gymuned, ac yn darparu cymhellion i fusnesau fuddsoddi yn eu gweithluoedd.

- cyllid ychwanegol gwerth £18.4m i Awdurdodau Lleol a Chynghorau ELWa (nad yw’n rhan o’r £60m y cyfeirir ato ym mharagraff 6) i gyflymu mynediad i fand llydan ym maes dysgu gydol oes yn y flwyddyn ariannol hon (yn ogystal â £7.75m yn 2002-03 a £9.25m yn 2003-04 ar gyfer cymorth rhwydwaith). Mae’r cyllid hwn, sy’n cael ei gyflwyno’n gynnar, yn cefnogi’r adroddiad ar e-ddysgu a gomisiynwyd gan ELWa ac Adroddiad Awdurdod Datblygu Cymru ar Isadeiledd Band Llydan Hollbresennol ar gyfer Cymru trwy roi mynediad i fand llydan i feysydd allweddol fframwaith dysgu gydol oes gan gynnwys ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd ac ysgolion arbennig, llyfrgelloedd, y Brifysgol i Ddiwydiant (UfI) a chanolfannau dysgu’n seiliedig ar TGCh. Bydd hefyd yn estyn y ddarpariaeth i feysydd addysg bellach ac addysg uwch, yn cynyddu nifer aelodau’r sector preifat sy’n manteisio arni, yn rhoi adnoddau i athrawon ar bob lefel ac

yn hwyluso’r gwaith o gynhyrchu cynnwys band llydan, er mwyn cyflawni polisïau Cymru Ar-lein a pholisïau eraill y Cynulliad yn gynt.

- buddsoddiad cyfalaf ychwanegol yn y sector Addysg Uwch yn amodol ar ystyried adolygiad y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes o’r sector;
- camau ychwanegol i wella cymorth i fyfyrwyr;
- cymorth ychwanegol ar gyfer y rhaglen Ymestyn Hawliau trwy roi adnoddau ychwanegol i awdurdodau lleol ar gyfer gwaith gydag ieuenctid a chefnogi Canllaw ar-lein a CWVYS;
- rhaglenni newydd i alluogi athrawon i barhau i ddatblygu’n broffesiynol, ynghyd â chymorth i ddenu graddedigion i’r byd addysg a gosod sail i’r corff proffesiynol, Cyngor Addysgu Cyffredinol (Cymru);
- cymorth i ysgafnhau’r baich biwrocrataidd a chymorth ar gyfer y strategaeth ar ysgolion bach ac ysgolion gwledig sydd ar y gweill;
- cyllid ychwanegol at anghenion plant teithwyr;
- darparu ar gyfer gwaith ACCAC ar ddatblygu cymwysterau gan gynnwys cyllid ar gyfer datblygu cynllun peilot y Fagloriaeth Gymreig, cymwysterau galwedigaethol a chymwysterau trwy gyfrwng y Gymraeg;
- gwell cymorth i addysg anghenion arbennig, gan gynnwys therapi lleferydd, ac i’r gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau ar gyfer anghenion addysgol arbennig nad ydynt yn gyffredin iawn;
- canolbwyntio ar godi safonau a gwella’r naid rhwng cyfnodau allweddol trwy drosglwyddo data rhwng ysgolion a darparwyr addysg eraill yn electronig;
- graddol gyflwyno darpariaeth llefydd blynyddoedd cynnar yn gynharach;
- darparu ar gyfer prosiectau i fynd i’r afael ag anfodlonrwydd a hybu gweithgareddau y tu allan i oriau ysgol sy’n gwella gweithgareddau dysgu, yn annog hunan-barch ac yn mynd i’r afael â thangyflawni.

**Cydymffurfio**

10. Mae’r papur hwn yn ceisio sylwadau’r Pwyllgor ar y gyllideb ddrafft yn unol â Rheol Sefydlog 19.

**Atodiadau:**

**Atodiad 1:** Cyllideb Ddrafft Prif Grwp Gwariant Addysg a Dysgu Gydol Oes a thabl hyblygrwydd diwedd blwyddyn

**Atodiad 2:** Llythyr Cadeirydd y Pwyllgor ar flaenoriaethau'r gyllideb

**Atodiad 3:** Cyllid y Cytundeb Partneriaeth: detholiad o'r tabl a gyhoeddwyd gyda'r gyllideb

**Cyswllt**

Judith Cole, Yr Is-adran Addysg Uwch, est 5468